Pwy ydym ni?

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cynnig cyngor a chymorth i oedolion o oedran gweithio, talu budd-daliadau'n gywir ac yn brydlon a helpu pobl i ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt i gefnogi gwladwriaeth les weithredol yn seiliedig ar hawliau a chyfrifoldebau.

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cynnig gwasanaethau recriwtio i gyflogwyr i greu cyfleoedd i'w cwsmeriaid, ac i fynd i'r afael â'r angen cyffredinol am broses fwy agored a hyblyg wrth weithredu'r farchnad lafur weithredol y DU actif.

Nod y Ganolfan Byd Gwaith yw cynnig gwaith i'r rheiny sy'n gallu gweithio a chymorth i'r rheiny na allant weithio, drwy:

- helpu'r rhai sydd o dan fwyaf anfantais yn y farchnad lafur fel rhieni unigol, pobl hŷn, y rheiny o leiafrifoedd ethnig, i mewn i waith, fel llwybr allan o dlodi;
- cynnig cymorth ariannol fel rhwyd ddiogelwch i bobl o oedran gweithio tra byddant yn ddi-waith;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran cyfleoedd;
- diogelu cywirdeb y system fudd-daliadau; a
- gweithio gyda'n partneriaid i baratoi cwsmeriaid ar gyfer y farchnad lafur, a gweithio gyda chyflogwyr i lenwi eu swyddi gwag yn effeithiol.

Nod y Ganolfan Byd Gwaith yw cynyddu cyfraddau cyflogaeth grwpiau sydd o dan fwyaf o anfantais, cynyddu'r cyflenwad effeithiol o lafur yn yr economi a chynyddu ffyniant yn y DU. Bydd llwyddiant y nodau hyn hefyd yn cyfrannu at leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol a helpu i greu cymdeithas fwy teg.

Gweithio yn y Ganolfan Byd Gwaith

Rydym yn cyflogi ystod eang o bobl mewn amrywiaeth o swyddi ac mae'r galluoedd sydd eu hangen yn dibynnu ar y bobl sy'n gwneud y swydd. Ond er mwyn cyflawn ein hamcanion mae angen bobl arnom sydd ag ymrwymiad i wasanaethu ein cwsmeriaid amrywiol ac sydd ambell waith o dan anfantais.

I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch gwefan y Ganolfan Byd Gwaith yn **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

BUDDSODDWR MEWN POBL

GADARN O BLAID YN · POBL ANABL

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau